CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2007 Rhif 1075 (Cy.113)

Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 (Adolygiadau) 2007

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub, y mae'n rhaid iddo osod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer awdurdodau tân ac achub a chaiff ddarparu canllawiau. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dyroddi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 ym Mawrth 2005 yn rhinwedd Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/760 (Cy.64)).

Mae'r Gorchymyn hwn yn adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol a ddyroddwyd eisoes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gosodir yr adolygiadau yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 1075 (W.113)

FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

The Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005 (Revisions) Order 2007

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Section 21 of the Fire and Rescue Services Act 2004 requires the National Assembly for Wales to prepare a Fire and Rescue National Framework, which must set out priorities and objectives for fire and rescue authorities and may provide guidance. The National Assembly for Wales issued the Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005 in March 2005 by virtue of the Fire and Rescue (National Framework) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/760 W.64).

This Order revises the National Framework previously issued by the National Assembly for Wales and the revisions are set out in the Schedule to this Order.

2007 Rhif 1075 (Cy.113)

Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 (Adolygiadau) 2007

Wedi'i wneud	*28 Mawrth 2007*
Yn dod i rym	*29 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 21(6), 60 a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**) ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol yn unol ag adran 21(5) o'r Ddeddf honno:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 (Adolygiadau) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Mawrth 2007.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol

2. Diwygir y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n dwyn y teitl "Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005" a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mawrth 2005 yn unol â'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 2004 p.21.

2007 No. 1075 (W.113)

FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

The Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005 (Revisions) Order 2007

Made	*28 March 2007*
Coming into force	*29 March 2007*

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred by sections 21(6), 60 and 62 of the Fire and Rescue Services Act 2004(**1**) and having consulted such persons as it considers appropriate in accordance with section 21(5) of that Act:

Title, commencement and application

1.-(1)This Order is called the Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005 (Revisions) Order 2007.

(2) This Order comes into force on 29 March 2007.

(3) This Order applies in relation to Wales.

Amendment to the National Framework

2. The Fire and Rescue National Framework prepared by the National Assembly for Wales and entitled "The Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005" published by the National Assembly for Wales in March 2005 is amended in accordance with the Schedule to this Order.

(**1**) 2004 c.21.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

28 Mawrth 2007

28 March 2007

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

ATODLEN 1

Erthygl 2

Adolygiadau i Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005

1. Dileer paragraff 1.8 ac yn ei le rhodder -

"Bwriad y Pwyllgor Diogelwch Tân Cymunedol yw bwrw ymlaen â'r gwaith sy'n cael effaith ar ddiogelwch y cyhoedd a chytunodd i ledu ei gylch gwaith y tu hwnt i ddiogelwch rhag tân, er enghraifft i feysydd megis gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. I adlewyrchu'r newidiadau hyn yr enw newydd ar y Pwyllgor Diogelwch Tân Cymunedol fydd y Pwyllgor Diogelwch Cymunedol ('PDC')."

2. Dileer paragraff 2.2 ac yn ei le rhodder -

"Dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn 2003 mai targed Llywodraeth y Cynulliad oedd lleihau nifer y marwolaethau oherwydd tanau gan rhwng 30% a 50% yn y pum mlynedd a oedd yn dilyn, a chydweithio ag asiantaethau eraill tuag at leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau mewn damweiniau traffig ar y ffyrdd â ffigur tebyg. Y ffigurau gwaelodlin a gaiff eu defnyddio i asesu cynnydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn erbyn y targedau uchelgeisiol hyn fydd y ffigurau ar gyfer y flwyddyn galendr 2004. Yn ystod 2004 yr oedd cyfanswm o 26 o farwolaethau oherwydd tân; yr oedd 21 ohonynt o ganlyniad i danau damweiniol a 5 o ganlyniad i danau bwriadol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cadw golwg ar y cynnydd a bydd yn ystyried gweithgaredd a chyflawniad yn erbyn y targed hwn o bryd i'w gilydd dros gyfnod o bum mlynedd."

3. Dileer y canlynol o'r pedwerydd pwynt bwled ym mharagraff 2.5-

". Efallai y gellir rhoi ystyriaeth i dargedau ar y cyd ar gyfer pob asiantaeth yng Nghymru, dan nawdd Cyd-weithgor y Gwasanaethau Brys".

4. Dileer paragraffau 2.6 - 2.17 (gan gynnwys y teitl 'Cynlluniau Rheoli Risg Integredig') ac yn eu lle rhodder -

"**Cynlluniau Lleihau Risg**

2.6 Mae er lles pawb bod Cymru yn dod yn lle mwy diogel i weithio a theithio a byw ynddi ac i ymweld â hi. Er mwyn cynorthwyo â lleihau risg lansiodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Gynllun Lleihau Risg yr Awdurdodau Tân ac Achub - Cymru Gwlad Ddiogelach ar 21 Mawrth 2006, sy'n darparu bod pob Awdurdod Tân ac Achub yn paratoi ei Gynllun Lleihau Risg ei hun ('CLlR').

SCHEDULE 1

Article 2

Revisions to the Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005

1. Delete paragraph 1.8 and replace with -

"The CFSC aims to take forward its work that impacts upon public safety and has agreed to widen its remit beyond fire safety, for example into areas such as road traffic collisions. To reflect these changes the CFSC will now be known as the Community Safety Committee ('CSC')."

2. Delete paragraph 2.2 and replace with -

"The Minister for Social Justice and Regeneration stated in 2003 that it was the Assembly Government's target to reduce deaths in fires by between 30% and 50% in the following five years, and to work with other agencies towards reducing deaths and injuries in road traffic accidents by a similar figure. The baseline figures that will be used to assess the progress of Fire and Rescue Authorities against these ambitious targets will be the figures for the calendar year 2004. During 2004 there were a total of 26 fire deaths; 21 were as a result of accidental fires and 5 as a result of deliberate fires. The Assembly Government will keep the progress under review and will consider activity and achievement against this target periodically during the five year span."

3. Delete the following from the fourth bullet point in paragraph 2.5-

".It may be that through the auspices of the Joint Emergency Services Group (JSEG) consideration could be given to joint targets for all agencies in Wales"

4. Delete paragraphs 2.6 - 2.17 (including the title 'Integrated Risk Management Plans') and replace with -

"**Risk Reduction Plans**

2.6 It is in everyone's interest that Wales becomes a safer place to work and live in, travel to and visit. To assist in risk reduction, the Minister for Social Justice and Regeneration launched the Fire and Rescue Authorities Risk Reduction Plan - Wales a Safer Country on 21 March 2006, which provides that each Fire and Rescue Authority should prepare its own Risk Reduction Plan ('RRP').

2.7 Er mwyn mynd i'r afael â risg yn strategol mae'n ofynnol cael agwedd sy'n asesu risg corfforaethol a risg cymunedol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod yr amgylcheddau cymhleth y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn gweithredu ynddynt, ac felly dylai pob Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdodau Tân ac Achub ddynodi'n glir ei flaenoriaethau a dyrannu adnoddau yn unol â hynny.

2.8 Mae canllawiau CLlR yn cynghori Awdurdodau Tân ac Achub i reoli risg mewn dull cynhwysfawr, tryloyw a chadarn. Mae'n caniatáu digon o ystod i Awdurdodau Tân ac Achub o ran hyblygrwydd yn lleol a dulliau arloesol i gyflenwi eu gwasanaethau i'r dinasyddion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

2.9 Dylai pob Awdurdod Tân ac Achub lunio CLlR neu gynllun gweithredu blynyddol sy'n canolbwyntio ar risg cymunedol a risg corfforaethol. Dylai CLlR yr Awdurdod Tân ac Achub ddarparu agenda strategol ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub hwnnw.

2.10 Er mwyn i Awdurdodau Tân ac Achub allu cyflawni'r targedau a'r safonau a osodir ym mharagraff 2.2 dylent lunio CLlR sydd wedi'i anelu at:

- Lleihau y nifer o danau a digwyddiadau argyfwng eraill;
- Lleihau colli bywydau mewn tanau a digwyddiadau argyfwng eraill;
- Lleihau nifer a difrifoldeb anafiadau mewn tanau a digwyddiadau argyfwng eraill;
- Lleihau effaith fasnachol, economaidd a chymdeithasol tanau a digwyddiadau argyfwng eraill;
- Diogelu'r amgylchedd a'r dreftadaeth, adeiledig a naturiol;
- Darparu gwasanaethau sy'n rhoi Gwerth am Arian;
- Integreiddio gweithgareddau'r Awdurdod Tân ac Achub yn yr agenda cyfiawnder cymdeithasol ehangach; a
- Mynd i'r afael â'r cynigion ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth a nodir yn y Fframwaith hwn.

2.11 Fel rhan o'r ymrwymiad parhaus i gydweithio rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdodau Tân ac Achub, dylai pob Awdurdod Tân ac Achub drafod ei gynigion a'i opsiynau ynghylch ei CLlR neu ei gynllun gweithredu blynyddol yn anffurfiol gyda Llywodraeth y Cynulliad cyn bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cychwyn ei ymgynghori cyhoeddus ar y CLlR neu'r cynllun gweithredu blynyddol.

2.12 Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub ddatblygu, ymgynghori, cymeradwyo a chyhoeddi eu CLlR neu eu cynllun gweithredu blynyddol erbyn 31 Hydref, er mwyn bod yn barod i'w rhoi ar waith yn y flwyddyn

2.7 To address risk strategically requires an approach that assesses both corporate and community risk. The Assembly Government recognises the complex environments in which Fire and Rescue Authorities operate, and therefore each Fire and Rescue Authority's Risk Reduction Plan should clearly identify their priorities and allocate resources accordingly.

2.8 RRP guidance advises Fire and Rescue Authorities to manage risk in a comprehensive, transparent and robust manner. It allows Fire and Rescue Authorities sufficient scope for local flexibility and innovative ways of delivering their services to citizens and communities they serve.

2.9 Each Fire and Rescue Authority should produce a RRP or annual action plan that focuses on community and corporate risk. The Fire and Rescue Authority's RRP provides the strategic agenda for that Fire and Rescue Authority.

2.10 In order for Fire and Rescue Authorities to achieve the targets and standards set out in paragraph 2.2 they should establish RRPs aimed at:

- Reducing the number of fires and other emergency incidents;
- Reducing the loss of life in fires and other emergency incidents;
- Reducing the number and severity of injuries in fires and other emergency incidents;
- Reducing the commercial, economic and social impact of fires and other emergency incidents;
- Safeguarding the environment and heritage, both built and natural;
- Providing services that are Value for Money;
- Integrating the activities of the Fire and Rescue Authority within the wider social justice agenda; and
- Addressing the equality and diversity proposals set out in this Framework.

2.11 As a continued commitment to collaborative working between the Assembly Government and Fire and Rescue Authorities, each Fire and Rescue Authority should informally discuss its proposals and options relating to its RRP or annual action plans with the Assembly Government before the Fire and Rescue Authority commences its public consultation on the RRP or annual action plan.

2.12 Fire and Rescue Authorities should develop, consult, approve and publish their RRP or annual action plan by 31 October, ready for implementation in the following financial year, in accordance with

ariannol ganlynol, yn unol â chanllawiau a ddyroddwyd o dan y Cylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru (06)07 sy'n dwyn y teitl Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdodau Tân ac Achub - Cymru Gwlad Ddiogelach.

2.13 Dylid gwerthuso pob ymateb i'r ymgynghoriad a'u hystyried yn ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Yn dilyn yr ymgynghori cyhoeddus a gwerthuso'r ymatebion dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub gysylltu unwaith eto â Llywodraeth y Cynulliad i drafod yr ymatebion i'r ymgynghori a'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd, cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol yr Awdurdod Tân ac Achub.

2.14 Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad (gyda chytundeb yr ymgynghorion), ynghyd â'u hymateb hwy i'r materion a godwyd, mewn dogfen gyhoeddus cyn gynted ag y bo'r CLlR wedi cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.

2.15 Anogir yr Awdurdodau Tân ac Achub i ddefnyddio Cyfarpar Ymateb Argyfwng y Gwasanaethau Tân ('CYAGT') i gasglu tystiolaeth gan y dylai eu CLlR fod yn flaengar ac wedi eu llunio gan y dystiolaeth yn hytrach nag yn ymateb i bwysau yn y tymor byr.

2.16 Mae gan bob Awdurdod Tân ac Achub fynediad i'r CYAGT sy'n ei alluogi i ragfynegi a rheoli'r risgiau yn ei ardal. Er nad y CYAGT yw'r unig fodel o gyfarpar sydd ar gael, dyma brif ddewis Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer casglu a dehongli tystiolaeth.

2.17 I grynhoi, dylai Awdurdodau Tân ac Achub lunio CLlR neu gynllun gweithredu blynyddol sy'n gwneud y canlynol:

- Mynd i'r afael â'r mater o leihau risgiau corfforaethol a risgiau cymunedol;
- Dylid eu gwneud yn destun ymgynghori eang am o leiaf 12 wythnos;
- Dylid eu llunio gan gofio am ganllawiau, polisïau a strategaethau Llywodraeth y Cynulliad;
- Eu bod wedi eu sylfaenu ar ddata cadarn a dibynadwy sy'n amlwg yn gysylltiedig â risgiau corfforaethol a risgiau cymunedol a ddynodwyd; a
- Dylid eu trafod gyda Llywodraeth y Cynulliad cyn ymgynghori a chyn iddynt gael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub."

5.-(1) Ym mharagraffau 2.19, 2.26, 2.39, 2.40, 2.43, 4.13, 4.17, 6.3, 6.8, 6.16, 9.6 a 9.13 rhodder 'CLlR' yn lle 'CRhRI'.

(2) Yn yr ail bwynt bwled ar dudalen 5 sy'n ymwneud â Phennod 2, rhodder 'Cynllun Lleihau Risg (CLlR)' yn lle 'Cynlluniau Rheoli Risg Integredig (CRhRI)'.

guidance issued under the Wales Fire and Rescue Service Circular (06)07 entitled Fire and Rescue Authority Risk Reduction Plan - Wales a Safer Country.

2.13 All responses to the consultation should be evaluated and formally considered by the Fire and Rescue Authority. Following its public consultation and evaluation of responses, Fire and Rescue Authorities should again contact the Assembly Government to discuss the responses to their consultation and its intended course of action, prior to formal Fire and Rescue Authority approval.

2.14 Fire and Rescue Authorities should publish the consultation responses (with agreement from the consultees), along with their response to the issues raised, in a public document once the RRP has been approved by the Fire and Rescue Authority.

2.15 Fire and Rescue Authorities are encouraged to use the Fire Services Emergency Cover Toolkit ('FSEC') to gather evidence as their RRPs should be forward looking and shaped by evidence rather than a response to short-term pressures.

2.16 Each Fire and Rescue Authority has access to FSEC to enable them to predict and manage the risks within their area. Whilst FSEC is not the only modelling tool available, it is the Assembly Government's preferred tool for gathering and interpreting evidence.

2.17 In summary, Fire and Rescue Authorities should produce a RRP or annual action plan that:

- Addresses the issue of reducing both corporate and community risk;
- Should be subjected to wide consultation for at least 12 weeks;
- Should be produced with regard to Assembly Government guidance, policies and strategies;
- Is based on robust and reliable data clearly linked to identified corporate and community risks; and
- Should be discussed with the Assembly Government prior to consultation and prior to its formal adoption by the Fire and Rescue Authority."

5.-(1) In paragraphs 2.19, 2.26, 2.39, 2.40, 2.43, 4.13, 4.17, 6.3, 6.8, 6.16, 9.6 and 9.13 substitute 'RRP' for 'IRMP'.

(2) In the second bullet point on page 5 relating to Chapter 2 substitute 'Risk Reduction Plan (RRP)' for 'Integrated Risk Management Plans (IRMP)'.

6. Mewnosoder paragraff newydd ar ôl 2.23 -

"2.23A Yn y dyfodol bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i'r PDC ystyried ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd blaenorol Llywodraeth y Cynulliad a'r defnydd effeithiol o'r cyfryngau cyn gwneud argymhellion ar weithgaredd a chyllid yn y dyfodol i Lywodraeth y Cynulliad."

7. Ychwaneger ar ddiwedd paragraff 2.26 -

"Bydd y cynlluniau peilot yn dod i ben ar ddiwedd Rhagfyr 2007. Er hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod yr angen i barhau â'r gweithgaredd a bydd yn parhau i gyllido'r timau tra bydd y PDC yn gwerthuso eu gwaith a gwneud argymhellion ar eu dyfodol i Lywodraeth y Cynulliad."

8. Mewnosoder paragraff newydd ar ôl 2.28 -

"2.28A Bydd y Strategaeth Llosgi Bwriadol, pan gaiff ei chwblhau gan Lywodraeth y Cynulliad, yn ffurfio sail i weithgaredd gwrth-losgi bwriadol yn y dyfodol. Enw'r Strategaeth Llosgi Bwriadol hon fydd Strategaeth Lleihau Llosgi Bwriadol Cymru. Adolygir gweithgaredd gwrth-losgi bwriadol gan y PDC. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i'r PDC gomisiynu strategaeth debyg ar gyfer tanau damweiniol."

9. Ychwaneger ar ddiwedd paragraff 2.32 -

"Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i'r PDC ystyried gweithgaredd yn y maes hwn, gan adeiladu ar weithgaredd yn ystod cyfnod 2007-2008."

10. Ychwaneger paragraff newydd ar ôl 2.33 -

"2.33A Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i'r PDC ystyried pob gweithgaredd hyd yn hyn o ran diogelwch y gymuned a lleihau llosgi bwriadol a chynghori Llywodraeth y Cynulliad ar flaenoriaethau a lefelau cyllido ar gyfer unrhyw weithgaredd yn y dyfodol o 2007-08 ymlaen, gan gofio nid yn unig am weithgaredd blaenorol ond hefyd am flaenoriaethau newydd i Awdurdodau Tân ac Achub, megis gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. "

11. Dileer paragraffau 2.39 a 2.40 ac yn eu lle rhodder -

"2.39 Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Rhag Tân) 2005 (O.S. 2005/1541) ('GDT') yn ddiwygiad o bwys yng nghyfraith diogelwch rhag tân. Yr oedd y ddeddfwriaeth flaenorol o ran diogelwch rhag tân mewn dros gant o ddarnau o ddeddfwriaeth ar wahân. Daeth GDT i rym yng Nghymru a Lloegr ar 1 Hydref 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau a phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn y GDT i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Mehefin 2006 drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (O.S. 2006/1458).

6. Insert new paragraph after 2.23 -

"2.23A In the future the Assembly Government will ask the CSC to consider previous Assembly Government publicity campaigns and the effective use of media before making recommendations on future activity and funding to the Assembly Government."

7. Add to the end of paragraph 2.26 -

"The pilot schemes will come to an end at the end of December 2007. However, the Assembly Government recognises the need to maintain continuity of activity and will continue to fund the teams whilst CSC evaluates their work and makes recommendations on their future to the Assembly Government."

8. Insert new paragraph after 2.28 -

"2.28A The Arson Strategy, when finalised by the Assembly Government, will form the basis for future anti-arson activity. This Arson Strategy will be called the Wales Arson Reduction Strategy. Anti-arson activity will be kept under review by the CSC. The Assembly Government will ask the CSC to commission a similar strategy for accidental fires."

9. Add to the end of paragraph 2.32 -

"The Assembly Government will ask the CSC to consider activity in this field, building on activity during the 2007-2008 period."

10. Add new paragraph after 2.33 -

"2.33A The Assembly Government will ask the CSC to consider all activity to date in relation to community safety and arson reduction and to advise the Assembly Government on priorities and funding levels for any future activity from 2007-08 onwards, having regard not only to previous activity but also new priorities for Fire and Rescue Authorities, such as road traffic collisions."

11. Delete paragraphs 2.39 and 2.40 and replace with -

"2.39 The Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 (S.I. 2005/1541) ('FSO') is a major reform of fire safety law. Previous fire safety legislation was contained in over one hundred separate pieces of legislation. The FSO came into force in England and Wales on 1 October 2006. The functions and powers of the Secretary of State in the FSO were transferred to the National Assembly for Wales on 8 June 2006 by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2006 (S.I. 2006/1458).

2.40 Mae prif bwyslais y diwygio ar atal tanau mewn mangreoedd annomestig ac ar drefn o asesu risg rhag tân a fydd yn cael ei chyflawni gan y person cyfrifol er mwyn dynodi, lliniaru neu ddileu unrhyw risg rhag tân i bobl yn y mangreodd neu o'u cwmpas. Diddymwyd tystysgrifau tân a bellach nid oes ganddynt unrhyw statws.

Mae cyngor ar gael i bobl sy'n gyfrifol am eu mangreoedd o ran asesu risg tân yng Nghanllawiau Asesu Risg Tanau Llywodraeth y Cynulliad.

Gorfodir y GDT yn bennaf gan yr Awdurdodau Tân ac Achub, er y gall awdurdodau eraill orfodi'r GDT mewn meysydd fel gofal iechyd neu fangreoedd niwclear.

Dylai polisi Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer gorfodi'r GDT ffurfio rhan o'i strategaeth gyffredinol i ddiogelu ei gymuned, yn ôl y manylion yn ei CLlR.

Wrth iddo lunio ei bolisi gorfodi, dylai Awdurdod Tân ac Achub flaenoriaethu ei archwiliad o asesiadau risg tân ac arolygiadau o fangreoedd sy'n rhoi bywyd o dan risg arwyddocaol gan dân. Ceir canllawiau ar y mater hwn yng Nghylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru (06) 06 - Gwybodaeth Atodol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub ar ddatblygu eu Cynlluniau Lleihau Risg (CLlR). Dyroddwyd y canllawiau hyn o dan erthygl 26 o'r RRO ac o'r herwydd nid yw'n ffurfio rhan o'r Fframwaith hwn."

12. Dileer paragraff 4.3 ac yn ei le rhodder -

"**Safonau Gwasanaeth**

4.3 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod anhyblygrwydd 'Safonau Ymateb Tân 1985'. Yr oeddent yn rhagysgrifiadol, anhyblyg ac wedi cael eu llunio i gyfyngu ar ymlediad tân o un eiddo i eiddo arall. Ychydig o sylw yr oeddent yn ei roi i fesurau diogelu bywyd neu ddiogelwch rhag tân yn yr eiddo.

Erbyn hyn datblygwyd Safonau Gwasanaeth i ddisodli 'Safonau Ymateb Tân 1985'. Mae'r Safonau Gwasanaeth yn disgrifio lefel gwasanaeth y gall pobl ddisgwyl ei gael.

Cyflwynodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y Safon Gwasanaeth gyntaf ar 21 Mawrth 2005 drwy Gylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru (06) 08. Mae'r Safon Gwasanaeth hon yn rhoi manylion y safonau a ddisgwylir pan fydd Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hanfon at danau mewn cartrefi.

Seilir y Safon Gwasanaeth hon ar fodel cynhwysfawr sy'n ystyried poblogaeth, dwysedd poblogaeth a math o boblogaeth. Selir y safon ar risg ac mae iddi dair agwedd:

1. Y Safon yw darparu bod diffoddwyr yn cyrraedd tân yn y cartref o fewn 10 munud yn 80% o gartrefi Cymru.

2.40 The main emphasis of the reform is fire prevention at non-domestic premises and a regime of fire risk assessment to be carried out by the responsible person in order to identify, mitigate or remove any risk from fire to persons in or around the premises. Fire certificates were abolished and no longer have any status.

Advice for people responsible for their premises in relation to fire risk assessment is available in the Assembly Government's Fire Risk Assessment Guides.

Enforcement of the FSO is principally undertaken by Fire and Rescue Authorities, though other authorities may enforce the FSO in settings such as health care and nuclear premises.

A Fire and Rescue Authority's policy for enforcement of the FSO should form part of its overall strategy for the protection of its community, as detailed in its RRP.

In drawing up their enforcement policy, a Fire and Rescue Authority should prioritise their audit of fire risk assessments and inspections of premises that pose a significant risk to life from fire. Guidance on this matter is contained within Wales Fire and Rescue Service WFRS Circular (06) 06 - Supplementary information for FRAs on the development of their Risk Reduction Plans (RRPs). This guidance was issued under article 26 of the RRO and does not therefore form part of this Framework."

12. Delete paragraph 4.3 and replace with -

"**Service Standards**

4.3 The Assembly Government acknowledges the rigidity of the '1985 Standards of Fire Cover'. They were prescriptive, inflexible and designed to limit the spread of fire from one property to another. They took little account of life safety or fire safety measures within the property.

Service Standards have now been developed to replace the '1985 Standards of Fire Cover'. The Service Standards describe a level of service that people can expect to receive.

The Minister for Social Justice and Regeneration introduced the first Service Standard on the 21 March 2005 by Wales Fire and Rescue Service WFRS Circular (06) 08. This Service Standard sets out the details of the standards expected in relation to the attendance by Fire and Rescue Authorities to fires in the home.

This Service Standard is based upon a comprehensive model that considers population, population density and population type. It is based on risk and has a three strand approach:

1. The Standard is to provide 80% of Welsh homes with an attendance to a fire in the home within 10 minutes.

2. Os bydd yr ardal risg a ragfynegir gan CYAGT fel un sydd â gradd anafiadau sy'n fwy na 6, mae angen ymateb cyflymach o 5 munud.

3. Os bydd CYAGT yn dosbarthu ardal fel un y mae'r risg yn uwch na'r cyfartaledd bydd angen i'r Awdurdod Tân ac Achub asesu'r risg unigol a bydd angen iddo fabwysiadu ffurf ychwanegol ar y strategaeth i leihau risg.

Dylai Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod ymateb proffesiynol ac effeithiol ar gael i fodloni'r ystod o weithgareddau addysg a gweithgareddau atal a'r digwyddiadau argyfwng y maent yn ymateb iddynt. Mae hyn yn cynnwys:

- Hyfforddi staff a sicrhau eu bod yn cynnal safonau proffesiynol, eu bod yn gyfarwydd â'r risgiau ac yn deall y cysyniad o leihau a rheoli risg;
- Darparu rheolaeth effeithiol a sicrhau bod systemau rheoli ar waith;
- Sicrhau bod gan reolwyr digwyddiadau yr hyfforddiant a'r profiad priodol;
- Sicrhau bod yr offer iawn ar gael a bod cefnogaeth lawn gan y staff o'r adnoddau priodol i ddelio'n effeithiol gyda digwyddiadau, o fewn y Safon Gwasanaeth a gytunwyd, a sicrhau diogelwch y rhai sy'n cyflawni'r tasgau; a
- Gweithio gyda'i gilydd fel y bo'n briodol."

13. Dileer paragraff 4.4.

14. Ychwaneger at ddiwedd paragraff 4.14-

"Yn unol â Chreu'r Cysylltiadau a'r Agenda Gydweithredu, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r ddadl o blaid cydweithredu rhwng y gwasanaethau brys, gan gynnwys defnyddio cydgyfleusterau."

15. Ym mharagraff 5.14 dileer y canlynol-

"a Gweithgor Argyfyngau Cymru".

16. Dileer paragraff 5.17.

17. Ym mharagraff 5.21 dileer y canlynol-

"Mae'r trefniadau, a gynhyrchwyd ac a gytunwyd gan Weithgor Argyfyngau Cymru, yn adlewyrchu'r egwyddorion a gynhwysir yn Dealing with Disaster, ac yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli argyfwng cenedlaethol yng Nghymru."

18. Dileer paragraffau 5.26 i 5.29 ac yn eu lle rhodder-

"**Firelink**

5.26 Fel y cyhoeddwyd yng Nghylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru (06)09, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymuno â Llywodraeth y DU i gaffael system gyfathrebu radio digidol o'r radd

2. Where the risk area is predicted by FSEC as having a casualty rate greater than 6, faster response of 5 minutes is required.

3. Where FSEC classifies an area as above average risk the Fire and Rescue Authority will need to assess the individual risk and will need to adopt an additional form of risk reduction strategy.

Fire and Rescue Authorities should ensure that a professional and effective response is available to meet the range of education and prevention activities and the emergency incidents to which they respond. This includes:

- Training staff and ensuring that they maintain professional standards, are familiar with risks and understand the concept of risk reduction and management;
- Providing effective command and ensuring control systems are in place;
- Ensuring that incident commanders have appropriate training and experience;
- Ensuring that the right equipment is available and staff are fully supported with appropriate resources to deal effectively with incidents, within agreed Service Standards, and to ensure the safety of those undertaking the tasks; and
- Working together as appropriate."

13. Delete paragraph 4.4.

14. Add to the end of paragraph 4.14-

"In accordance with Making the Connections and Collaboration Agenda, the Assembly Government supports the case for collaboration between the emergency services, including the use of joint facilities."

15. In paragraph 5.14 delete the following-

"and the Wales Emergencies Working Group"

16. Delete paragraph 5.17.

17. In paragraph 5.21 delete the following-

"The arrangements, which have been produced and agreed by the WEWG, reflect the principles contained in Dealing with Disaster and provide a framework for the management of a Welsh national crisis."

18. Delete paragraphs 5.26 to 5.29 and replace with -

"**Firelink**

5.26 As announced in Wales Fire and Rescue Service Circular W-FRSC(06)09, the Assembly Government has joined with the UK Government to procure a state of the art digital radio communication

flaenaf a enwir Firelink ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Bydd y system newydd hon yn darparu'r un dechnoleg i'r Awdurdodau Tân ac Achub ag a ddarperir i'r Heddlu a maes o law i'r Gwasanaeth Ambiwlans yng Nghymru gan greu'r gallu i ryngweithredu a gwrthsefyll am y tro cyntaf.

5.27 Cafodd y contract ar gyfer y system gyfathrebu newydd ei osod i O^2 Airwave Limited. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi tua £44 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf yn Firelink a bu'n gweithio'n agos â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn rhoi'r gwerth gorau am arian. Caiff y system ei chyllido gan Lywodraeth y Cynulliad hyd nes y bydd yn weithredol, ac yna bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cyfrannu at gostau refeniw y system newydd am gyfnod llawn y contract. Mae'r contract hefyd yn darparu ar gyfer cynnal a chadw systemau cyfathrebu radio presennol hyd nes y bydd system newydd Firelink yn gweithredu'n llawn.

5.28 Mae'r rhaglenni gwaith yn darparu y dylai'r system fod yn weithredol yng Nghymru gyda'r gallu i ryngweithredu'n llawn ledled gwasanaethau brys y DU erbyn canol 2009. Drwy Firelink bydd y gallu gan Awdurdodau Tân ac Achub i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau ar raddfa fawr ledled y DU a bydd yn eu darparu i ymdrin â gwahanol argyfyngau a gofynion heriol yr amgylchedd fel y maent heddiw.

Hyfforddiant

5.29 Cydgysylltir yr hyfforddiant i Ddifoddwyr Tân yng Nghymru ym mhob un o elfennau'r Dimensiwn Newydd a chyflawnir yr hyfforddiant mewn cydweithrediad â Thîm Cynllunio Rhanbarthol Dimensiwn Newydd Cymru a'r Prif Swyddogion Tân. Mae'r hyfforddiant arbennig yn cynnwys Diheintio Torfol; Canfod ac Adnabod Deunyddiau; Pympiau Pwerus; Chwilio ac Achub Trefol (ChAT) a Rheoli a Gorchymyn. Cyllidir yr hyfforddiant yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad nes bydd gwaith y Rhaglen Dimensiwn Newydd a gyflwynir fesul cam wedi cael ei chwblhau pan fydd trefniadau cyllido yn y tymor hir ar waith. Bydd costau ar gyfer criwiau ChAT hefyd yn cael eu cyllido gan Lywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys ystordai newydd ar gyfer cerbydau a chyfarpar y Dimensiwn Newydd, ynghyd â Rig Hyfforddi ChAT newydd a storfa."

19. Ar ddiwedd paragraff 6.2 mewnosoder-

", ac sy'n adlewyrchu deddfwriaeth ynglyn â chydraddoldeb".

20. Dileer paragraff 6.12 ac yn ei le rhodder -

"Ar 31 Mawrth 2006 yr oedd 2% o gyfanswm y gweithlu'n fenywod. Er hynny, dim ond 2% o'r staff gweithredol (staff amser llawn a staff ar y system ddyletswydd wrth gefn) oedd yn fenywod. Yr oedd y lleiafrifoedd ethnig yn ffurfio 0.5% o

system named Firelink for Fire and Rescue Authorities in Wales, Scotland and England. This new system will provide Fire and Rescue Authorities with the same technology as the Police and eventually the Ambulance Service in Wales and creates true interoperability and resilience for the first time.

5.27 The contract for the new communications system has been let to O^2 Airwave Limited. The Assembly Government is investing approximately £44 million over the next 10 years in Firelink and has worked closely with the UK Government to ensure that this investment offers best value for money. The system is being funded by the Assembly Government until operational, and Fire and Rescue Authorities will then contribute to the revenue costs of the new system for the full term of the contract. The contract also provides for the maintenance of the existing radio communication systems until the new Firelink system is fully operational.

5.28 The programme of works provides that the system should be operational in Wales and be fully interoperable across all of the UK emergency services by mid 2009. Firelink will give Fire and Rescue Authorities the capability to respond effectively to large-scale incidents throughout the UK and equip them to meet differing emergencies and the demands of today's challenging environment.

Training

5.29 Training for Firefighters in Wales on all elements of the New Dimension capability is being co-ordinated and carried out in collaboration with the Wales New Dimension regional Planner Team and Chief Fire Officers. The special training includes Mass Decontamination; Detection and Identification of Materials; High Volume Pumps; Urban Search and Rescue (USAR) and Command and Control. The training is being directly funded by the Assembly Government until the completion of the roll-out of the New Dimension Programme when long term funding arrangements will be put in place. The crewing costs of the USAR capability are also being funded by the Assembly Government, including new accommodation for the New Dimension vehicles and equipment, together with a new USAR Training Rig and accommodation."

19. At the end of paragraph 6.2 insert-

"and which reflects equality legislation".

20. Delete paragraph 6.12 and replace with -

"As at 31 March 2006 12% of the total workforce were female. However, only 2% of operational staff (wholetime and Retained duty System) were female. Ethnic minorities made up 0.5% of the total workforce.

gyfanswm y gweithlu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau'n ymroddedig i newid proffil y gweithlu mewn Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn eu gwasanaethu, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y Strategaeth Adnoddau Dynol sydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd."

The Assembly Government remains committed to changing the profile of the workforce in Fire and Rescue Authorities within Wales to reflect the diversity of the communities that Fire and Rescue Authorities serve, and this will be reflected in the Human Resource Strategy currently being developed."

21. Dileer paragraff 6.13.

21. Delete paragraph 6.13.

22. Dileer paragraffau, 6.15 a 6.16.

22. Delete paragraphs 6.15 and 6.16.

23. Dileer paragraff 7.13 ac yn ei le rhodder-

"Yn ystod 2006 agorwyd yn swyddogol ganolfan hyfforddi bwrpasol newydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, sy'n brosiect PFI y mae'r Cynulliad yn darparu dros £15m o gymorth refeniw iddo."

23. Delete paragraph 7.13 and replace with-

"South Wales FRA's new dedicated training centre, a PFI project to which the Assembly Government is providing over £15m of revenue support, officially opened during 2006."

24. Dileer paragraff 8.4.

24. Delete paragraph 8.4.

25. Dileer paragraff 8.11 ac yn ei le rhodder -

"Yn ystod 2007-8 bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £5 miliwn er mwyn dwyn gwaith y PDC yn ei flaen a gweithgareddau atal eraill."

25. Delete paragraph 8.11 and replace with -

"During 2007-8 the Assembly Government will provide £5 million to take forward CSC's work and other preventative activity."

26. Dileer paragraff 10.17.

26. Delete paragraph 10.17.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 1075 (Cy.113)

Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 (Adolygiadau) 2007

2007 No. 1075 (W.113)

FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

The Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005 (Revisions) Order 2007

©℗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W0086/04/07 ON